**CYFARWYDDIAETH YR AMGYLCHEDD A GWASANAETHAU TAI CYNGOR BRO MORGANNWG**

Uned Cludo Teithwyr, Depo'r Alpau
Quarry Road, Gwenfô, CF5 6AA

Ffurflen Gais i brynu Pàs Bws Ysgol i'w ddefnyddio ar Fws Contract Ysgol:
**2024-25**

**SYLWER**

- Caiff ceisiadau eu trin ar sail y cyntaf i'r felin.
- I brynu sedd sbâr, rhaid cyflwyno cais bob blwyddyn ysgol.
- Bydd y dyddiad rhyddhau ar gyfer ceisiadau blynyddol yn cael ei roi ar y wefan Cludiant i'r Ysgol bythefnos cyn diwedd tymor yr haf.
- Ni fydd gan ddisgybl y dyrennir sedd iddo un flwyddyn hawl awtomatig i brynu sedd sbâr y flwyddyn ganlynol am y rhesymau canlynol:
    - efallai na fydd capasiti dros ben mwyach;
    - mae'r cais wedi'i gyflwyno'n hwyrach nag eraill ac nid oes seddi sbâr ar gael mwyach;
    - ***mae'n bosib bydd y Cyngor yn penderfynu peidio â gwerthu seddi sbâr.***
- I gael rhagor o fanylion am y pàs prynu sedd sbâr, cyfeiriwch at ddogfen Polisi Trafnidiaeth yr Ysgol a'r Coleg

**Rhan 1: MANYLION PERSONOL**

| **ENW RHIANT / GWARCHEIDWAD:** | |
|---|---|
| **CYFEIRIAD:** | **MANYLION CYSWLLT:** |
| | Rhif Ffôn: |
| | |
| | Rhif Ffôn Symudol: |
| | |
| **COD POST:** | Cyfeiriad E-bost: |

| **ENW(AU) DISGYBL(ION)** | **Dyddiad Geni** | **YSGOL A FYNYCHIR YM MIS MEDI 2024** |
|---|---|---|
| | | |
| | | |

**Rhan 2: MANYLION TEITHIO A THALU**

Llwybr bws sydd ei angen a'r arhosfan agosaf (os yw'n hysbys) - ______________________

Pàs bws blwyddyn academaidd - £450.00 y disgybl y flwyddyn – pob taith

**A wnewch chi <u>BEIDIO</u> cyflwyno taliad gyda'r ffurflen gais. Anfonir anfoneb allan os dyrennir sedd sbâr i'ch plentyn**

Unwaith y bydd seddi ar gael i'w prynu, byddant ar gael **<u>erbyn dydd Llun 23 Medi 2024 neu ynghynt. Byddwn yn cysylltu â chi os daw sedd ar gael i'w gwerthu; felly peidiwch â chysylltu â'r swyddfa</u>**

**Rhan 3: GWYBODAETH YCHWANEGOL**

1. Nid yw cwblhau ffurflen gais yn sicrhau y cewch sedd. Dim ond **os ydynt ar gael** y mae modd gwerthu seddi, ac fe'u gwerthir ar sail y cyntaf i'r felin.

2. I brynu sedd sbâr, rhaid cyflwyno cais am bàs bob blwyddyn ysgol . Ni fydd gan ddisgybl y dyrennir sedd iddo un flwyddyn hawl awtomatig i brynu sedd sbâr y flwyddyn ganlynol.

3. Ni ystyrir ceisiadau i brynu ond ar ôl cadarnhau nifer y seddi sydd ar gael ar y bws. Unwaith y bydd seddi ar gael i'w prynu, byddant ar gael **erbyn dydd Llun 23 Medi 2024** neu ynghynt, ar ôl asesu nifer y seddi sydd ar gael. Cysylltwn â chi **os daw sedd ar gael i'w gwerthu**.

4. Unwaith y bydd cadarnhad gan y tîm cludiant ysgol fod sedd ar gael, byddwn yn cysylltu â chi yn syth os oes angen y sedd arnoch o hyd, a bydd y pàs yn cael ei brosesu. Yna bydd anfoneb yn cael ei hanfon atoch y mae angen ei thalu'n llawn.

5. Caiff archebion pàs prynu a dderbynnir trwy gydol y flwyddyn ysgol eu hanfon yn syth i'ch cyfeiriad cartref sydd wedi ei gofrestru â'r ysgol.

6. Rhaid deall nad yw darparu'r cyfleuster hwn yn golygu bod ymrwymiad gan yr Awdurdod Addysg Lleol, ac mae'n dibynnu'n gyfan gwbl ar gapasiti'r cerbyd a ddefnyddir ac os oes seddi sbâr ar gael. Ceidw'r Cyngor yr hawl i ddiddymu'r cyfleuster ar fyr rybudd os oes angen y llefydd yn hwyrach ar ddisgyblion cymwys.

7. Prynir pàs gan wybod na fydd yr amserlen a gyhoeddir yn cael ei diwygio. Ni fydd unrhyw gerbyd yn gyrru am ragor o filltiroedd nac yn aros wrth arosfannau ychwanegol er mwyn disgyblion sy'n prynu pasys.

8. Rhaid dangos pasys bws i'r gyrwyr cyn mynd ar y bws ysgol penodol. Gwrthodir codi unrhyw ddisgybl nad oes ganddo bàs dilys na llythyr gan yr ysgol. (Dim Pàs Dim Taith)

9. Gellir cael pasys newydd yn lle rhai sy'n cael eu colli, eu dinistrio neu eu difetha gan y Tîm Cludo Teithwyr. Mae ffurflenni ar gael ar y wefan cludiant i'r ysgol.

10. Mae'n bosib y cymerir pàs disgyblion neu fyfyrwyr sy'n teithio ar unrhyw gerbyd gwasanaeth ac sy'n tynnu sylw'r gyrrwr neu'n peri gofid i unrhyw deithiwr arall, dros dro neu'n barhaol. Bydd y Cyngor bob tro'n ymchwilio i gwynion am ymddygiad gwael ac mae'r Cyngor wedi llunio fframwaith ar gyfer tracio camau gweithredu i sicrhau y cynhelir cysondeb. Mae manylion llawn y fframwaith ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau yn nogfen Polisi Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol y Cyngor.

12. Os nad ydych am eich pàs prynu mwyach ac am roi'r gorau i ddefnyddio'r gwasanaeth, rhaid i chi anfon e-bost at y Tîm Cludiant Ysgol a rhoi'r pasys bws yn ôl neu fel arall byddwch yn atebol am y taliad am flwyddyn lawn.

13. Gall y Cyngor hefyd wneud y penderfyniad i beidio â gwerthu seddi sbâr ar gerbydau lle mae'r capasiti yn agos at lawn.

**RHAN 4: DATGANIAD**

Trwy hyn, rwy'n gwneud cais am bàs bws ysgol ac mae'r holl wybodaeth a gyflwynaf yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth. Rwy'n deall na chaiff cais am bàs bws ei brosesu os ceir bod unrhyw wybodaeth a roddais yn anghywir. Tynnwyd fy sylw at Bolisi'r Cyngor ar Gludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol ac rwyf wedi darllen y wybodaeth a gyflwynwyd ynghyd â'r ffurflen gais hon.

Llofnod: ______________________ Dyddiad: ______________________

Argraffwch

Enw: ______________________

**AT DDEFNYDD SWYDDFA YN UNIG**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **CADARNHAWYD Y** | | **RHODDWYD GWYBOD I'R RHIANT** | |
| | | | |
| **DIWEDDARWYD CTX A'R LLWYBR A** | | **NODIADAU** | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **LLOFNOD** | | **DYDDIAD** | |